

Y ddamcaniaeth gronynnau

- CAL Mags a Cal yma yn edrych ar y ddamcaniaeth gronynnau a chyfradd newid cemegol.
- MAGS Mae gwrthdrawiadau'n achosi adweithiau. Weithiau, mae eisiau i adweithiau cemegol gyflymu.
- CAL Oes. Po fwyaf o wrthdrawiadau, cyflymaf ydy'r gyfradd adwaith.
- MAGS Mae tair ffordd i gynyddu'r gyfradd adwaith. Rhif un? Crynodiad, sef nifer y gronynnau o sylwedd pur mewn cyfaint penodol.
- Drwy gynyddu crynodiad adweithydd mewn hydoddiant, neu wasgedd nwy sy'n adweithio, mae'r gyfradd newid cemegol yn cynyddu.
- CAL Mags.
- MAGS Mwy o ronynnau, mwy o siawns o wrthdrawiadau llwyddiannus, felly cyfradd adwaith uwch.
- A'r ail beth sy'n effeithio ar y gyfradd adwaith? Tymheredd.
- Wrth boethi, mae'r gronynnau'n cyflymu ac yn cael mwy o egni, felly mae gwrthdrawiadau'n digwydd yn amlach.
- Bydd mwy o ronynnau'n goresgyn yr egni actifadu sydd ei angen i gael gwrthdrawiadau mwy llwyddiannus.
- A'r trydydd peth sy'n effeithio ar y gyfradd adwaith ydy arwynebedd arwyneb.
- Mae gan adweithydd solet, wedi'i dorri'n ddarnau llai, fwy o arwynebedd arwyneb. Mae mwy o ronynnau'n agored, felly mae mwy o siawns i wrthdaro'n llwyddiannus efo gronynnau eraill.
- Felly'r tair ffordd allweddol i gyflymu'r gyfradd newid cemegol – un, cynyddu crynodiad... Gad y tecstio Cal, rydyn ni heb orffen eto.
- CAL Chill out, Mags.

MAGS

Dydy 'chillio' yn dda i ddim – rhaid codi'r tymheredd i gynyddu'r gyfradd adwaith, cofio? Dyna rif dau. Rhif tri ydy cynyddu'r arwynebedd arwyneb.

Felly, dyna'r gyfradd adwaith. Gobeithio bydd Cal yn codi ei lygaid o arwyneb y ffôn 'na cyn y fideo nesa'.